Y llygoden a'r saith cynffon

Parchu Eraill / Caredigrwydd / Cyd-dynnu

Ar y diwrnod cyntaf yn yr ysgol, gwisgodd y llygoden ei gwisg orau, ond roedd pawb yn y dosbarth yn chwerthin am ei phen am fod ganddi saith cynffon.

"Edrychwch, edrychwch," meddai'r llygod eraill fesul un. "Edrychwch ar ei saith cynffon."

Drwy'r dydd bu'r llygoden yn crio. Roedd ei llygaid yn goch ac yn brifo. Rhedodd adref o'r ysgol ar derfyn dydd, a thaflu ei llyfrau ar y llawr. Rhedodd i chwilio am ei mam. "Beth sydd lygoden fach?" gofynnodd ei mam iddi. "Oes yna rywun wedi bod yn gas efo ti? Wnes ti syrthio?" Dechreuodd y llygoden fach ddweud ei stori wrth ei mam. "Mi ydw i'n edrych yn wirion efo saith cynffon. Dydw i ddim eisiau mynd i'r ysgol byth eto," meddai dan feichio crio. "Paid ti â chrio lygoden fach," meddai ei mam. "Dos di yn ôl i'r ysgol yfory, mi fydd popeth yn iawn." Dechreuodd y llygoden fach sgrechian dros bob man. "Na! Byth! Dydw i byth yn mynd yn ôl i'r ysgol."

Dyma'i mam yn mynd i'r cwpwrdd i chwilio am y siswrn mawr. Eisteddodd y llygoden fach yn llonydd. Snip! Dyna un gynffon i ffwrdd.

Bore drannoeth cychwynnodd y llygoden fach yn hapus, dan ddawnsio a chanu ac ysgwyd ei chwe chynffon. Pan ddaeth amser chwarae dal i chwerthin oedd y llygod eraill. Roedden nhw'n chwerthin a chwerthin a chwerthin. "Tyrd i chwarae efo ni y llygoden efo chwe chynffon."

Dechreuodd y llygoden fach grio unwaith yn rhagor.

Y pnawn hwnnw, ar ôl i'r ysgol gau, dywedodd y llygoden fach wrth ei mam. "Mam, mae'n rhaid i chi dorri pob cynffon i ffwrdd efo'r siswrn mawr."

Un....dwy....tair....pedair....pump....chwech. Ymhen dim roedd ei mam wedi torri pob cynffon i ffwrdd.

Unwaith eto aeth y llygoden fach i'r ysgol yn hapus, dan ddawnsio a chanu. Pan welodd y llygod eraill nad oedd gan y

llygoden fach yr un gynffon dyna nhw'n dechrau chwerthin a chwerthin a chwerthin.
"Does ganddi ddim un gynffon," meddai'r llygod i gyd efo'i gilydd. "Y llygoden heb gynffon, y llygoden heb gynffon, y llygoden heb gynffon," oedd eu cân drwy'r dydd. Ar ôl cyrraedd adref o'r ysgol dywedodd y llygoden fach wrth ei mam, "Dydw i byth, byth yn mynd yn ôl i'r ysgol eto."
"Beth am i ti chwerthin efo'r llygod eraill," meddai'i mam wrthi, "wedyn bydd y llygod eraill yn siŵr o chwarae efo ti."
Y tro hwn, gwrandawodd y llygoden ar ei mam. Aeth i'r ysgol dan ddawnsio a chanu. Dechreuodd y llygod eraill dynnu'i choes unwaith eto ond y tro hwn dechreuodd y llygoden fach chwerthin efo nhw.
Does yna neb yn chwerthin am ben y llygoden erbyn hyn. Mae hi'n llygoden fach hapus dros ben. Mae'r llygoden heb gynffon yn chwerthin, dawnsio, neidio a chwarae efo'r llygod eraill a hefyd mae'n gweithio'n galed yn yr ysgol.

Pan fydd plant eraill yn gas efo mi,
O Dduw, helpa fi i fod yn garedig tuag atyn nhw.
Paid â gadael i mi fod yn gas efo neb. Amen.

✦ Pan fod y llygod eraill yn gwneud hwyl am ben y llygoden efo saith cynffon?
✦ Fydd plant eraill yn gwneud hwyl am eich pen chi weithiau? Pam?